



Cyn lansio - diweddariadau brys

- **Cyhoeddi** - Adfer cyhoeddi patentau i'w gapasiti llawn.
- **Gwelliannau i'r system fewnol** - Cyflymu prosesu ceisiadau gan gynnwys derbynebaw ffeilio ar gyfer ceisiadau NP1 ac anfonebu.
- **Deillio hawl** - Wrth wneud cais am batent, byddwn yn ychwanegu mwy o opsiynau fel y gall ffeilwyr ddatgan yn gywir sut y deilliodd yr hawliau o'r dyfeisiwr.
- **Newidiadau i ddrafftiau** - Bydd y defnyddiwr sy'n cyflwyno cais drafft nawr yn cael hysbysiadau, nid y defnyddiwr a'i creodd.
- **Ffioedd diweddaru** - gwasanaeth diweddaru fel bod ffioedd newydd yn cael eu harddangos a bod gofyn i'r cwsmer dalu'r swm cywir.

Ffenestr lansio – 0–6 mis ar ôl lansio

- **Gohebiaeth** - Gwelliannau i ohebiaeth, gan gynnwys pwy sy'n ei derbyn, lawrlwytho sawl dogfen ar unwaith a rhagolwg dogfennau.
- **Gwelliannau i geisiadau patent** -
 - Mae'r cynrychiolydd yn ddiofyn i'r sefydliad y mae eich cyfrif wedi'i gysylltu ag ef.
 - Gwelliannau i'r dudalen 'Adolygu a chyflwyno' i gynnwys manylion ffioedd ac i ysgogi gwiriadau pellach.
- **Ymateb i welliant archwiliad** - Ychwanegu opsiwn 'Dogfennau Ychwanegol' i ganiatáu i newidiadau wedi'u hollrhain gael eu lanlwytho'n haws.
- **Cofrestru o wefan IPO** - Gall cwsmeriaid gofrestru am gyfrif o wefan IPO.
- **Newid enw a chyfeiriad** - Ychwanegir y nodweddion newid enw a newid cyfeiriad at y gwasanaeth.
- **Tynnu'n ôl** - Ychwanegu opsiwn i lanlwytho gwybodaeth ategol, ychwanegu proc pellach cyn cwblhau tynnu'n ôl ac arddangos manylion ategol y cais sy'n cael ei dynnu'n ôl.
- **Gwelliannau chwilio** - Ychwanegu'r gallu i chwilio am batentau yn ôl rhif cyhoeddiad. Gwella chwiliad trwy ddychwelyd cyfeiriadau sydd mewn defnydd yn unig.
- **Gwelliannau i grwpiau** - Cyfres o newidiadau i wella ymarferoldeb y grwpiau.

Y tu hwnt i lansio – 6–12 mis ar ôl lansio

- **Gohebiaeth** - Gweithredu newidiadau a gwelliannau pellach i'w gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr adolygu a lawrlwytho gohebiaeth.
- **Gwelliannau i geisiadau patent** - Gweithredu newidiadau a gwelliannau pellach, gan gynnwys ffyrdd o chwarae manylion a dogfennau ceisiadau yn ôl yn syth ar ôl eu cyflwyno.
- **Talu ac anfonebu** - Gwelliannau i'r profiad talu yn OneIPO, gan gynnwys gweld balansau Cyfrif Adneuo a gwelliannau i pryd y cyhoeddir anfonebau ar gyfer ceisiadau newydd.
- **Ceisiadau Cyfnod Cenedlaethol** - Gwneud gwelliannau i'r hawliad yn flaenoriaeth.
- **Hysbysiadau atgoffa adnewyddu a hysbysiadau rhoi'r gorau** – Anfon allan, yn ddigidol, yr hysbysiadau atgoffa adnewyddu hwyr a hysbysiadau rhoi'r gorau a gynhyrchwyd gan OneIPO.